

# Tribiwnlys y Gymraeg

Dogfen Ymgynghori

## Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi: **24 Tachwedd 2014**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **19 Ionawr 2015**

# Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg

- Trosolwg** Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn pobl ynghylch Rheolau drafft Tribiwnlys y Gymraeg ("y Tribiwnlys"). Bydd y Tribiwnlys yn gwrandio ar achosion sy'n ymwneud â phenderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â safonau'r Gymraeg. (Ceir esboniad manylach o waith y Tribiwnlys isod.)
- Bydd y Rheolau'n cael eu gwneud yn ffurfiol gan Lywydd Tribiwnlys y Gymraeg, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei drefnu ar y cyd gan y Tribiwnlys a Llywodraeth Cymru.
- Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **19 Ionawr 2015** fan hwyraf.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
- Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau)
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:  
RHADBOST RTLK-KURC-ELKJ  
Tribiwnlys y Gymraeg  
Is-adran y Gymraeg  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ
- e-bost: [tyg@cymru.gsi.gov.uk](mailto:tyg@cymru.gsi.gov.uk)  
Ffôn: 029 2082 6841

**Diogelu data** Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Caiff unrhyw ymateb a anfonwch atom ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn mewn cysylltiad â'r Tribiwnlys. Mae'n bosibl y bydd staff eraill Llywodraeth Cymru yn ei weld hefyd i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae'r Tribiwnlys yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych am i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu cuddio.

Mae'n bosibl y caiff enwau neu gyfeiriadau a guddiwn eu cyhoeddi'n nes ymlaen, er na ddylai hyn ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 pan fyddant yn berthnasol) yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth sydd ym meddiant llawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth na chyhoeddwyd. Er hyn, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i gyrff cyhoeddus ddal gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth sydd wedi'i dal yn ôl, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru benderfynu a ddylid ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn am beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae honno'n ffaith bwysig y bydd yn cael ei hystyried. Er hyn, efallai y bydd rhesymau pwysig weithiau pam y byddai'n rhaid datgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi gofyn am beidio â'u cyhoeddi. Bydd Llywodraeth Cymru'n cysylltu â'r person ac yn gofyn am ei safbwynt cyn penderfynu'n derfynol a fydd yr wybodaeth yn cael ei datgelu.

## **Cynnwys**

Cyflwyniad i Dribiwnlys y Gymraeg	2
Safonau'r Gymraeg	2
Swyddogaethau Tribiwnlys y Gymraeg	2
Y Rheolau drafft	5

## **Cyflwyniad i Dribiwnlys y Gymraeg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 “y Mesur” yn darparu ar gyfer sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg. Bydd y Tribiwnlys yn gwranddo ar achosion sy'n ymwneud â penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg (“y Comisiynydd”) o ran safonau'r Gymraeg.

Bydd rhaid fod y Tribiwnlys wedi'i sefydlu'n llawn cyn bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i bersonau (a all fod yn gyrff neu'n ddeiliaid swyddi cyhoeddus) yn gofyn iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y personau hynny'r gallu i arfer eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y gofyniad hwnnw. (Unwaith y bydd safonau wedi'u gosod ar berson gall nifer o sefyllfaoedd pellach godi a fydd yn rhoi hawl i'r person hwnnw, ac eraill, i wneud cais i'r Tribiwnlys.)

Cafodd Keith Bush CF ei benodi yn Llywydd cyntaf Tribiwnlys y Gymraeg yn mis Gorffennaf 2014.

## **Safonau'r Gymraeg**

Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau sy'n ymwneud ag ymddygiad mewn perthynas â thriniaeth o'r Gymraeg. Bydd y safonau yn raddol gymryd lle'r system bresennol o gynlluniau iaith, y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r safonau yn cael eu creu er mwyn rhoi mwy o hawliau i siaradwyr Cymraeg, hawliau y gellir eu gorfodi. Byddant yn gwneud hyn drwy osod safonau ar sefydliadau mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu, hybu a chadw cofnodion. Mae'r gyfres gyntaf o safonau yn delio'n benodol ag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Rhaid gwneud y safonau drwy eu pennu mewn rheoliadau statudol. Rôl Llywodraeth Cymru oedd drafftio'r safonau yn ogystal â'r rheoliadau. Unwaith y caiff y rheoliadau sy'n cynnwys y safonau eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol, mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw.

## **Swyddogaethau Tribiwnlys y Gymraeg**

Mae'r Mesur yn galluogi'r Tribiwnlys i wrando ar y materion canlynol:

1. Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd o ran gosod safonau'r Gymraeg.
2. Apeliadau yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd bod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad un o safonau'r Gymraeg.

3. Apeliadau yn erbyn camau gorfodi sy'n cael eu cymryd gan y Comisiynydd.
4. Apeliadau gan achwynydd yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd nad oedd person wedi methu â chydymffurfio â safon.
5. Adolygiadau o benderfyniadau ar ran y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gwŷn (neu i derfynu ymchwiliad).

### **Herio gofynion i gydymffurfio â safonau**

Gall person sy'n derbyn hysbysiad cydymffurfio herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol ar sail bod y safon yn afresymol neu'n anghymesur.

Gall sialens hefyd ei godi os bydd newid sylweddol i amgylchiadau yn golygu ei fod yn afresymol neu'n anghymesur i ddisgwyl i berson barhau i gydymffurfio gyda'r safon.

Bydd rhaid i berson cyflwyno sialens i'r Comisiynydd yn gyntaf, a chael penderfyniad ffurfiol ar y mater gan y Comisiynydd cyn, os oes angen, apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i'r Tribiwnlys. Os yw'r Tribiwnlys o'r farn fod y gofynias i gydymffurfio â'r safon wedi'i phennu'n afresymol neu'n anghymesur, rhaid i'r Tribiwnlys wneud un o'r canlynol:

- Dirymu'r hysbysiad cydymffurfio
- Dirymu'r hysbysiad cydymffurfio a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd
- Amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol

### **Apeliadau mewn perthynas ag ymchwiliadau gan y Comisiynydd**

Gall y Comisiynydd gynnal ymchwiliad i weld a yw person wedi methu â chydymffurfio â safon. Os bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod person wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y Comisiynydd:

- Beidio â gweithredu ymhellach;
- Ei gwneud yn ofynnol i person i baratoi cynllun gweithredu at y diben o beidio ag ailadrodd y methiant;
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r person roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant;
- Gosod cosb sifil (hyd at £5,000) ar y person;
- Rhoi argymhellion neu gyngor i'r person (neu i berson arall);
- Ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person sydd wedi methu cydymffurfio.

Os bydd y Comisiynydd wedi dyfarnu fod person wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y person hwnnw apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y dyfarniad hwnnw, hynny yw, ar y sail na fethwyd â chydymffurfio â'r safon. Mewn achos felly, gall y Tribiwnlys benderfynu:

- Cadarnhau dyfarniad y Comisiynydd, neu
- Diddymu dyfarniad y Comisiynydd

Gall person hefyd apelio i'r Tribiwnlys ar y sail bod camau gorfodi'r Comisiynydd yn afresymol neu'n anghymesur. Yn yr achos hwn, gall y Tribiwnlys benderfynu:

- Cadarnhau'r camau gorfodi
- Amrywio'r camau gorfodi, neu
- Ddiddymu'r camau gorfodi

### **Apeliadau gan achwynydd**

Os bydd y Comisiynydd, ar ôl derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd fod person wedi methu â chydymffurfio â safon, yn cynnal ymchwiliad ac yn dyfarnu *na* fethodd y person gydymffurfio â'r safon, gall y sawl a wnaeth y cwyn apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y dyfarniad hwnnw.

Yn yr achos hwn, gall y Tribiwnlys benderfynu:

- Cadarnhau dyfarniad y Comisiynydd, neu
- Ddiddymu dyfarniad y Comisiynydd

### **Cais gan achwynydd am adolygiad penderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gwŷn (neu i derfynu ymchwiliad)**

Gall aelod o'r cyhoedd sydd wedi gwneud cwyn i'r Comisiynydd fod person wedi methu â chydymffurfio â safon, os bydd y Tribiwnlys yn caniatáu, wneud cais i'r Tribiwnlys i adolygu penderfyniad gan y Comisiynydd:

- i beidio â chynnal ymchwiliad i'r cwyn;
- ar ôl penderfynu cynnal ymchwiliad, derfynu'r ymchwiliad heb ei gwblhau.

Rhaid i'r Tribiwnlys ymdrin â chais am adolygiad o'r fath fel pe bai'n gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol, gan ddechrau gydag asesiad a oes disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo, neu a oes rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed. Os felly, bydd y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i'r cais gael ei glywed yn llawn.

Yn yr achos hwn, os bydd y Tribiwnlys, ar ôl gwrandawriad llawn, gall y Tribiwnlys benderfynu:

- Cadarnhau dyfarniad y Comisiynydd, neu
- Diddymu dyfarniad y Comisiynydd

## **Adolygiadau o benderfyniadu'r Tribiwnlys**

Bydd gan y Tribiwnlys yr hawl i adolygu ei benderfyniadau, er enghraifft os effeithiwyd ar degwch yr achos gan gamgymeriad gweithdrefnol ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys.

## **Apeliadau o'r Tribiwnlys**

Gall y Comisiynydd, neu barti arall i achos a gafodd ei wrando gan y Tribiwnlys, apelio i'r Uchel Lys ar bwnt cyfreithiol syn deillio o'r penderfyniad. Er mwyn medru gwneud hynny bydd rhaid cael caniatâd y Tribiwnlys neu ganiatâd yr Uchel Lys.

## **Y Rheolau drafft**

### **Pwrpas y Rheolau**

Pwrpas cael Rheolau gweithdrefnol yw sicrhau bod yr holl achosion sy'n dod o flaen y Tribiwnlys yn cael eu trin yn deg ac yn gyson. Mae angen i bawb sy'n dod ag achos o flaen y Tribiwnlys ddeall yn union pa gamau sydd rhaid iddynt eu cymryd er mwyn i ffeithiau'r anghydfod a'u dadleuon medru cael eu cyflwyno'n effeithiol i'r Tribiwnlys. Rhaid iddynt hwy, ac unrhyw barti arall i'r achos (er enghraifft y Comisiynydd) hefyd fedru gwybod pa ddadleuon eraill (ac, os nad oes cytundeb ar y ffeithiau, pa fersiynau amgen o'r ffeithiau) y bydd y Tribiwnlys yn ystyried.

Swyddogaeth y Rheolau yw gosod y fframwaith gweithdrefnol angenrheidiol ar gyfer achosion o flaen y Tribiwnlys. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion adran 123 o'r Mesur. Bwriedir iddynt weithredu ochr yn ochr â Chyfarwyddyd Ymarfer a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Lywydd y Tribiwnlys o dan adran 124 o'r Mesur (ac yn unol â Rheol 25 o'r Rheolau). Bydd y Cyfarwyddyd Ymarfer yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli a gweithredu'r Rheolau.

Ceir ymgynghoriad pellach ar ddrafft o'r Cyfarwyddyd Ymarfer, a fydd yn fael ei lunio unwaith y bydd cynnwys terfynol y Rheolau wedi'i benderfynu.

### **Tarddiad y Rheolau**

Mae'r gwaith o lunio Rheolau ar gyfer y Tribiwnlys yn unigryw. Yn wahanol i unrhyw dribiwnlys arall sy'n gweithredu yng Nghymru, nid oes gan y Tribiwnlys unrhyw sefydliad cyfatebol sy'n bodoli yn un o awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig. Mae ei maes llafur, sef y safonau a fydd yn cael eu gosod o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn unigryw i Gymru. Mae'r ddeddfwriaeth honno, sydd â'r nod o sicrhau cydraddoldeb rhwng defnyddwyr y ddwy iaith sydd â statws swyddogol yng Nghymru, yn torri tir newydd o fewn yr ynysoedd hyn.

Fodd bynnag, mae tribiwnlysoedd yn rhannu'r nod o benderfynu achosion yn deg ac yn gyfiawn ac mae'r elfennau sylfaenol o'u gweithdrefnau'n debyg iawn i'w gilydd. Mae'r Rheolau'n seiliedig, felly, ar brif nodweddion y rheolau



tribiwnlys diweddaraf i gael eu mabwysiadu gan dribiwnlys Cymreig, sy'n cael eu cynnwys yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 (SI 2012 Rhif 322 (Cy.53)) sydd ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/322/made/welsh> . Addaswyd y rheolau hynny'n helaeth er mwyn ateb gofynion Tribiwnlys y Gymraeg.

## **Trosolwg o'r Rheolau**

Mae'r Rheolau wedi'u rhannu'n wyth ran:

- Rheolau cyffredin (sy'n delio gyda rhai egwyddorion sylfaenol cyffredin ac yn diffinio'r termau arbennig sy'n cael eu defnyddio yn y Rheolau);
- Darpariaethau sy'n ymwneud â dewis yr aelodau o'r Tribiwnlys a fydd yn gwrando achosion unigol;
- Sut i gychwyn cais i'r Tribiwnlys;
- Y camau ymarferol a fydd yn rhaid ei cymryd er mwyn paratoi achos ar gyfer cael ei wrando;
- Pwerau a fydd gan y Tribiwnlys er mwyn medru rheoli achosion, gan gynnwys y cyfarwyddiadau y bydd y Tribiwnlys yn medru rhoi i bartïon ar ba gamau y bydd rhaid iddynt gymryd cyn y gwrandawriad;
- Y drefn ar gyfer gwrandawriadau a phenderfyniadau ffurfiol y Tribiwnlys;
- Beth sy'n digwydd ar ôl i benderfyniad cael ei wneud, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer adolygu penderfyniadau'r Tribiwnlys neu apelio i'r Uchel Lys;
- Darpariaethau amrywiol, gan gynnwys rheolau gweinyddol ynglŷn â chofnodi penderfyniadau, cyflwyno dogfennau a mesur terfynau amser.

## **Rhai o Brif Nodweddion y Rheolau**

### **Rheol 3 – Yr Amcan Pennaf**

Pwrpas y rheol hon yw datgan prif nod y Rheolau, sef galluogi'r Tribiwnlys i benderfynu achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r rheol yn mynd ymlaen i fanylu ar agweddau arbennig o'r amcan. Bydd y rheol yn rhoi canllawiau i'r Tribiwnlys ac i'r partïon ynglŷn â sut i ymddwyn yn gyffredinol wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rheolau.

### **Rheol 6 – Ieithoedd y Tribiwnlys**

Mae'r rheol hon yn ymgorffori'r egwyddor o sicrhau cydraddoldeb i ddefnyddwyr y Gymraeg a'r Saesneg mewn perthynas â gweithdrefnau'r Tribiwnlys. Bydd gan pob parti neu dyst yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall yn nhrefodion y Tribiwnlys ac wrth gyfathrebu gyda'r Tribiwnlys. Bydd dyletswydd ar y Tribiwnlys, yn ei drefniadau gweinyddol, i sicrhau hyn.

## **Rheol 7 – Dulliau amgen o ddatrys anghydfod**

Rhoddir llawer o bwyslais y dyddiau hyn, gan lysoedd a thriwlynlysoedd, ar ddymunoldeb datrys anghydfodau trwy dulliau amgen (fel cyfryngu) os bydd dulliau hynny ar gael ac yn briodol o dan yr amgylchiadau unigol. Bydd rheol 6 yn rhoi dyletswydd ar y Tribiwnlys i dynnu sylw'r partïon at unrhyw weithdrefn briodol felly sydd ar gael.

## **Rheolau 8 a 9 – Aelodaeth o baneli triwlynlys**

Y Llywydd, fel arfer, bydd yn dewis y tri aelod o'r Tribiwnlys, gan gynnwys y Cadeirydd (a fydd pob amser yn aelod gyda chymhwyster cyfreithiol) a fydd yn ffurfio panel i wrando achos. Os bydd amgylchiadau'n codi a fydd yn gwneud hynny'n annymunol, bydd y Llywydd yn dirprwyo'r dasg i un o aelodau eraill y Tribiwnlys sydd â chymwysterau cyfreithiol.

## **Rheolau 10, 11 a 12 – Cychwyn ceisiadau**

Mae'r rheolau hyn yn ymdrin â'r ffordd o gychwyn cais i'r Tribiwnlys, sef trwy gyflwyno dogfen ysgrifenedig ("hysbysiad cais") i'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y ceisydd hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y Comisiynydd. Gosodir y cyfnod hwnnw gan y Mesur, ond gan ganiatáu iddo gael ei ymestyn yn unol â'r Rheolau (sef yn unol â rheol 14). Mae rheol 12 yn rhagnodi pa wybodaeth sydd rhaid ei chynnwys yn yr hysbysiad cais.

## **Rheol 13 – Gweithredu gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys**

Pan fydd Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn derbyn hysbysiad cais, bydd rhaid, fel arfer, i'r cais gael ei gofnodi'n syth yng Nghofrestr y Tribiwnlys a'i hysbysu i'r Comisiynydd. Ond os yw'n ymddangos nad yw'r cais yn un dilys (er enghraifft am nad yw'n syrthio o fewn pwerau'r Tribiwnlys) gall y Tribiwnlys dynnu sylw'r sawl sydd wedi anfon yr hysbysiad at hynny.

## **Rheol 16 – Rhoi neu wrthod caniatâd i wneud cais am adolygiad o benderfyniad gan y Comisiynydd**

Mae'r rheol hon yn ymwneud â'r drefn benodol ar gyfer gwneud cais, o dan adran 103 o'r Mesur, am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gwyn fod person wedi methu â chydymffurfio â safon (neu i derfynu ymchwiliad). Cyn medru gwneud cais bydd angen i'r ceisydd gael caniatâd y Tribiwnlys (yn seiliedig ar y meini prawf sy'n cael eu gosod gan adran 103(4) o'r Mesur). Bydd y Tribiwnlys (yn ymarferol y Llywydd neu aelod arall sy'n gymwysedig yn y gyfraith) yn penderfynu'r a ddylai'r ceisydd arfaethedig gael hawl i wneud cais, a hynny "ar papur" ond gyda hawl i'r ceisydd arfaethedig adnewyddu'r cais mewn gwrandawriad o flaen panel.

Dim ond os bydd y Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i wneud cais y bydd y cais yn cael ei dderbyn fel cais dilys ac yn dilyn yr weithdrefn safonol, gan gychwyn trwy gael ei gofnodi'n gais yng Nghofrestr y Tribiwnlys o dan reol 13.

## **Rheolau 18 – 22 Datganiadau achos a thystiolaeth ysgrifenedig**

Mae rheolau 18 i 22 yn ymwneud â threfniadau ar gyfer cyflwyno i'r Tribiwnlys (a thrwy hynny i'r parti neu'r parti'on eraill) datganiadau achos (sy'n gosod allan achos y parti hwnnw) a'r dystiolaeth ysgrifenedig y bydd y parti hwnnw'n dibynnu arno er mwyn profi'r achos. Onibai fod y cyfnodau perthnasol yn cael eu hystredu gan y Tribiwnlys, bydd rhaid i'r ceisydd gyflwyno'r dogfennau hyn o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn hysbysiad y Tribiwnlys fod y cais wedi'i gofrestru'n ffurfiol. Caiff y Comisiynydd ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn datganiad achos y ceisydd a bydd gan y ceisydd hawl i ymateb i ddatganiad achos y Comisiynydd o fewn 20 diwrnod i'w dderbyn.

## **Rheol 23 – Methiant ar ran y Comisiynydd i gyflwyno datganiad achos**

Os na fydd y Comisiynydd yn cyflwyno datganiad achos (neu os bydd y Comisiynydd wedi datgan bwriad i beidio â gwrthwynebu'r cais) bydd gan y Tribiwnlys yr hawl i benderfynu'r cais, ar sail datganiad achos a thystiolaeth y ceisydd, heb wrandawriad neu mewn gwrandawriad lle na fydd cynrychiolaeth ar ran y Comisiynydd.

## **Rheolau 24 a 25 – Methiant i ymateb i ymholiadau'r Tribiwnlys**

Bydd gan y Tribiwnlys yr hawl i ofyn, ar unrhyw adeg, i barti os yw'r parti hwnnw'n dal i ddymuno mynd ymlaen a'i achos ac, os na fydd y parti hwnnw'n cadarnhau ei fod am wneud hynny, bydd gan y Tribiwnlys yr hawl i benderfynu'r achos yn ffurfiol heb wrandawriad, neu ar ôl gwrandawriad lle na fydd cynrychiolaeth ar ran y parti hwnnw.

## **Rheolau 26 – 35 – Pwerau'r Tribiwnlys i reoli achosion**

Dyma'r Rheolau sy'n gosod allan bwerau'r Tribiwnlys i reoli achosion. Bydd gan y Tribiwnlys yr ystod arferol o bwerau i roi cyfarwyddiadau ynglŷn â thystiolaeth a fydd yn cael ei hystyried yng ngwrandawriad yr achos, newid cynnwys datganiadau achos, datgelu gwybodaeth perthnasol ac yn y blaen.

Bydd gan y Tribiwnlys hefyd y pŵer i ychwanegu parti (er enghraifft os bydd achwynydd am gefnogi achos y Comisiynydd yn ffurfiol, ac os yw hynny'n unol â'r amcan pennaf) neu, os bydd nifer o geisiadau unigol yn codi'r un cwestiwn, i orchymyn bod yr achosion hynny'n cael eu gwrandawrio gyda'i gilydd, neu fod un ohonynt yn cael ei benderfynu'n gyntaf er mwyn osgoi gwrandawriadau yn yr achosion eraill.

Bydd gan y Tribiwnlys y pŵer i daro allan cais os bydd y ceisydd wedi methu â chydymffurfio gyda chyfarwyddyd neu, os bydd y Comisiynydd wedi methu â gwneud hynny, i gyfyngu ar allu'r Comisiynydd i wrthwynebu'r cais.

Hefyd, bydd gan y Tribiwnlys bwerau tebyg os bydd yn ymddangos i'r Tribiwnlys fod y cais yn ddiffygiol yn un o'r ffyrdd sy'n cael eu rhestru yn rheol 28.

## **Rheolau 36 – 47 Gwrandawiadau achos**

Bydd pob cais y bydd y Tribiwnlys yn derbyn yn cael ei benderfynu mewn gwrandawriad cyhoeddus (oni bai fod y partiön yn cytuno i'r achos gael ei benderfynu "ar bapur" neu fod y Rheolau'n caniatáu i'r achos gael ei benderfynu'n ddiannod, er enghraifft os nad yw parti'n ufuddhau i gyfarwyddiadau'r Tribiwnlys).

Bydd gan y Tribiwnlys, mewn achos priodol, y gallu i wysio tyst (rheol 41). Ond bydd yn bosibl, hefyd, i'r Tribiwnlys dderbyn tystiolaeth dros y teliffon neu trwy linc fideo (rheol 42).

Pan fydd y gwrandawriad drosodd, bydd y panel yn ystyried ei ddyfarniad yn breifat ond yn ei gyhoeddi, gyda rhesymau, i'r partiön ac i'r cyhoedd (rheolau 47 a 60).

## **Rheol 48 – Cais am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys**

Bydd gan barti'r hawl i wneud cais am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys, o dan yr amgylchiadau sy'n cael eu rhestri yn rheol 48 (er enghraifft, os oedd parti wedi methu ag ymddangos yn y gwrandawriad, a hynny am resymau da a digonol).

## **Rheolau 50 a 51 – Apeliadau i'r Uchel Lys**

Mae'r Mesur yn rhoi i bartiön yr hawl i apelio o'r Tribiwnlys i'r Uchel Lys, ond dim ond ar bwynt o gyfraith. Rhaid i barti sydd am apelio hefyd cael caniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys (gan ddangos pa bwynt o gyfraith sydd, ym marn y parti, yn codi). Os bydd apêl yn cael ei wneud i'r Uchel Lys (gyda phosibilrwydd o apeliadau pellach i'r Llys Apêl a'r Goruchaf Lys) bydd y Tribiwnlys yn medru atal effaith penderfyniad y Tribiwnlys nes bydd yr apêl wedi'i benderfynu. Er enghraifft, petai'r Tribiwnlys wedi cadarnhau cosb a oedd wedi'i gosod gan y Comisiynydd, gallai'r Tribiwnlys orchymyn nad oedd rhaid ei thalu nes bod yr apêl wedi'i benderfynu.

## **Rheol 53 – Estyn amser**

Bydd gan y Tribiwnlys bŵer cyffredinol o dan reol 53 i estyn terfyn amser sy'n cael ei osod gan y Rheolau (neu gan gyfarwyddyd y Tribiwnlys). Ni fydd y pŵer hwn yn gymwys at geisiadau i ymestyn yr amser am gychwyn achos – mae rheol arbennig (rheol 14) yn ymwneud â hwy.

## **Rheol 55 – Costau a threuliau**

Mae'r rheol hon yn diffinio'r amgylchiadau a allai arwain (yn eithriadol) at gorchymyn i barti (neu i gynrychiolydd parti) i dalu costau a threuliau parti arall.

### **Rheol 56 – Pŵer i arfer swyddogaethau**

Os na fydd y Rheolau'n diffinio pwy, ar ran y Tribiwnlys, a fydd yn medru arfer ei swyddogaethau, gall mai panel tribiwnlys, y Llywydd, neu aelod o'r Tribiwnlys sydd wedi'i ymgymhwyso yn y gyfraith bydd yn gwneud hynny. Bydd cyfarwyddyd ymarfer gan y Llywydd yn delio gyda phwy a ddylai arfer swyddogaethau'r Tribiwnlys mewn sefyllfaoedd penodol.

### **Rheol 63 – Y dull o anfon, rhoi neu gyflwyno dogfennau**

Ceir anfon neu gyflwyno dogfennau, yn unol â'r Rheolau, mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys y post cyffredinol dosbarth cyntaf neu'n electronig. Mae'r rheol yn creu rhagdybiaeth fod dogfen a anfonwyd trwy'r post dosbarth cyntaf wedi cyrraedd ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y dyddiad postio.

### **Rheol 64 – Cyfrifo amser**

Mae rheol 64 yn cynnwys rheolau am gyfrif amser o dan y Rheolau. Pan fydd terfyn amser yn dod i ben, er enghraifft, ar ddyddiad sydd heb fod yn ddiwrnod gwaith, ystyrir fod gweithred sy'n digwydd ar y diwrnod gwaith nesaf wedi digwydd o fewn y terfyn hwnnw.